**DINAS A SIR CAERDYDD**

**ADOLYGU POLISI A PHERFFORMIAD**
**PWYLLGOR CRAFFU** **11 Hydref 2016**

---

**STRATEGAETH IAITH CAERDYDD DDWYIEITHOG 2017-2022**

---

**Rheswm dros yr Adroddiad hwn**

1. Cynnig cyfle i'r Pwyllgor ddysgu am ddatblygiadau polisi cenedlaethol sy'n ymwneud â'r Gymraeg a chyfrannu at yr ymgynghoriad ar gynnwys strategol Strategaeth Iaith Caerdydd Ddwyieithog 2017-2022.

**Cefndir**

**Safonau'r Gymraeg**

2. Yn 2011 daeth Mesur y Gymraeg (Cymru) i ddisodli Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd, mae gan y Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg yng Nghymru ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol. Nid oes angen bellach i gyrff cyhoeddus ddatblygu na gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg ond yn hytrach, mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

3. Cyflwynodd y Comisiynydd Iaith Hysbysiadau Cydymffurfio i'r holl awdurdodau lleol ar 30 Medi 2015. Mae'r ddogfen hon yn rhestru pa rai o'r 176 Safon (fel y rhestrir yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015) y mae'n rhaid i sefydliad gydymffurfio â nhw, yn ogystal ag unrhyw eithriadau a'r dyddiadau gweithredu. Mae gan Gyngor Dinas Caerdydd ddyletswydd statudol i gydymffurfio â'r safonau a restrir.

4. Wrth baratoi ar gyfer y Safonau newydd, bu i'r Cyngor ail-frandio Uned y Gymraeg fel Caerdydd Ddwyieithog er mwyn iddi gymryd rôl arweiniol yn y

gwaith o ddatblygu dinas lle gall dinasyddion a chyflogeion Cyngor Dinas Caerdydd dderbyn gwasanaethau a chymorth trwy gyfrwng y naill iaith yn gyfartal o ganlyniad i waith partneriaeth gwell. Cyflwynwyd y dull arloesol hwn er mwyn torri'r rhwystrau rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ac er mwyn sicrhau y daw Caerdydd yn ddinas sy'n wir ddwyieithog.

5. Mae tîm Caerdydd Ddwyieithog yn helpu'r Cyngor i gydymffurfio â'i ddyletswydd statudol o gynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'n cynnwys gwasanaeth cyfieithu cyflawn. Mae'n cynnig gwasanaeth cynghori i sefydliadau eraill ac mae'n parhau i hyrwyddo'r Gymraeg yn weithredol ac yn parhau i godi ymwybyddiaeth ohoni.

6. Yn ogystal, mae Safonau'r Gymraeg yn gofyn i'r Cyngor greu adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sy'n trafod sut y mae wedi cydymffurfio â safonau darparu gwasanaethau, safonau llunio polisïau a safonau gweithredu 'Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Caerdydd – Adran 22 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'. Gall Aelodau weld Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg Caerdydd Ddwyieithog 2015-16' trwy ddilyn y ddolen hon. http://cardiff.moderngov.co.uk/documents/s11113/Welsh%20Report.pdf

**Strategaeth Iaith 2017-22**

7. Mae cydymffurfio â Safon 145 yn gofyn i'r Cyngor fod wedi creu a chyhoeddi Strategaeth 5 Mlynedd y Gymraeg erbyn 30 Medi 2016, yn nodi sut y bydd yn hyrwyddo ac yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Bydd yn rhaid i'r strategaeth hon gynnwys targed o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn ogystal â chamau penodol i hwyluso defnyddio'r iaith yn unol â Strategaeth Iaith 2012 - 17 a strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: *miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050* (2016).

8. Mae'r Strategaeth Iaith yn **Atodiad 1**. Strategaeth ddrafft yw hon ar gyfer ymgynghoriad. Bydd cynllun gweithredu yn dilyn a gaiff ei ddatblygu gyda

phartneriaid. Gwahoddir rhanddeiliaid a dinasyddion i gyflwyno eu barn am y strategaeth ac am yr hyn y dylid ei gynnwys yn y cynllun gweithredu trwy ateb y cwestiynau yn **Atodiad 2** sydd hefyd ar gael ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/caerdydd-ddwyieithog erbyn 30 Hydref 2016.

9. Mae’r Strategaeth wedi ei llunio gan ystyried y ffaith mai prifddinas Cymru yw dinas fawr Prydain sy'n tyfu gyflymaf. Dros y 25 mlynedd ddiwethaf, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd wedi mwy na dyblu ac mae ffigyrau'r Cyfrifiad diwethaf yn dangos bod dros 16% o boblogaeth y ddinas yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg. Felly, wrth i’r ddinas dyfu, nod y strategaeth hon yw cynyddu nifer a chanran y siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yng Nghaerdydd.

10. Mae′r fath dwf yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ganlyniad i fewnfudo sylweddol i Gaerdydd o ardaloedd Cymraeg Cymru dros y 25 blynedd diwethaf ac mae′n cynrychioli ymarferion a pholisïau sy′n dangos ymroddiad tuag at addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghaerdydd.

11. Mae’r Cyngor yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac mae’r ddogfen strategaeth, wedi ei strwythuro i adlewyrchu nodau strategaeth iaith Gymraeg gyfredol Llywodraeth Cymru. Er mwyn i Gaerdydd chwarae ei rhan yn y gwaith o gyflawni’r weledigaeth hon, byddai angen i ni gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg (3+ oed) yng Nghaerdydd gan 15.9% o 36,735 (Cyfrifiad 2011) i 42,583 (Cyfrifiad 2021).

12. I grynhoi, mae’r Strategaeth atodol yn nodi prif bwyntiau gweledigaeth y Cyngor a'r strategaeth lefel uchel ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg mewn 6 maes strategol ac yn nodi’r blaenoriaethau strategol ym mhob maes. Mae hefyd yn dweud pa newidiadau y bydd angen iddo eu gwneud er mwyn gwireddu'r weledigaeth o greu Caerdydd ddwyieithog.

i. **Y teulu:** Hybu defnyddio′r Gymraeg o fewn teuluoedd.

**ii.** **Plant a phobl ifanc:** Meithrin agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg yn y sector ieuenctid.

iii. **Y gymuned:** Normaleiddio dwyieithrwydd ledled y ddinas.

iv. **Y gweithle:** Datblygu gweithleoedd cynyddol ddwyieithog.

**v.** **Gwasanaethau Cymraeg:** Hyrwyddo a gwella'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael yng Nghaerdydd.

vi. **Seilwaith:** Holl sefydliadau partner Caerdydd Ddwyieithog i brif-ffrydio′r iaith Gymraeg.

13. Yn bwysig, mae llwyddiant gweledigaeth Caerdydd Ddwyieithog fel yr amlinellir yn y strategaeth ddrafft yn dibynnu ar gydweithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid. Mae'r partneriaid canlynol wedi'u nodi drwy'r broses ymgynghori gychwynnol fel y prif sefydliadau a all, gyda'i gilydd, gyflawni gweledigaeth Caerdydd Ddwyieithog: Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd; Menter Caerdydd; Mudiad Meithrin; Prifysgol Caerdydd; Yr Hen Lyfrgell; Urdd Gobaith Cymru; Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Coleg Cymru; Llenyddiaeth Cymru ac S4C. Wrth ddatblygu cynllun gweithredu mae'r Cyngor yn gobeithio cynnwys mwy o sefydliadau a phartneriaid i gyflawni ei weledigaeth a chanlyniadau.

**Y ffordd ymlaen**

14. Cyhoeddir Strategaeth Iaith 2017-2022 derfynol er mwyn ei hystyried gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2016. Gwahoddir y Pwyllgor i gyflwyno sylwadau er mwyn eu cynnwys yn yr ymgynghoriad ac er mwyn datblygu'r cynllun gweithredu ymhellach.

15. Er mwyn helpu Aelodau i gyfrannu at yr ymgynghori ar Strategaeth y Gymraeg 2017-2022, bydd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Phil Bale yn dod i'r cyfarfod gyda Davina Fiore (Cyfarwyddwr Llywodraethu a

Gwasanaethau Cyfreithiol) a Ffion Gruffudd (Pennaeth Caerdydd Ddwyieithog) er mwyn cyflwyno’r dull strategol ac ateb cwestiynau Aelodau).

**Goblygiadau Cyfreithiol**

16. Mae gan y Pwyllgor Craffu rym i ymholi, ystyried, adolygu ac argymell ond nid i wneud penderfyniadau polisi. Gan mai er mwyn ystyried ac adolygu materion y mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, does dim goblygiadau cyfreithiol uniongyrchol. Fodd bynnag; mae’n bosibl y bydd goblygiadau cyfreithiol os a phan weithredir y materion sydd dan arolwg, gyda neu heb addasiadau. Bydd unrhyw adroddiad ag argymhellion ar gyfer penderfyniad sy'n mynd i'r Cabinet/Cyngor yn nodi unrhyw oblygiadau cyfreithiol sy'n codi o'r argymhellion hynny. Bydd yn rhaid i bob penderfyniad y mae’r Cyngor yn eu gwneud neu a wneir ar ran y Cyngor (a) fod o fewn pwerau’r Cyngor; (b) gydymffurfio ag unrhyw ofyn gweithdrefnol gan y gyfraith; (c) fod o fewn pwerau'r corff neu'r person sy'n defnyddio'r pwerau ar ran y Cyngor; (d) gael ei gymryd yn unol â gofynion gweithdrefnol y Cyngor e.e. Rheolau Gweithdrefn Craffu; (e) gael ei wneud ar sail gwybodaeth lawn a chywir; (f) gael ei wneud am y rhesymau cywir; (g) ystyried dyletswydd ymddiriedol y Cyngor i'w drethdalwyr; a (h) fod yn rhesymol ac yn gywir dan yr holl amgylchiadau.

**Goblygiadau Ariannol**

17. Mae gan y Pwyllgor Craffu rym i ymholi, ystyried, adolygu ac argymell ond nid i wneud penderfyniadau polisi. Gan mai er mwyn ystyried ac adolygu materion, nid oes goblygiadau ariannol uniongyrchol i unrhyw ran o’r rhaglen waith yn y cam hwn. Fodd bynnag; mae’n bosibl y bydd goblygiadau ariannol os a phan weithredir y materion sydd dan arolwg, gyda neu heb addasiadau. Bydd unrhyw adroddiad ag argymhellion ar gyfer penderfyniad sy'n mynd i'r Cabinet/Cyngor yn nodi unrhyw oblygiadau ariannol sy'n deillio o'r argymhellion hynny.

**ARGYMHELLION**

Argymhellir bod y Cabinet y gwneud y canlynol:

(i) Archwilio ymateb y Cyngor i ofyn Safon 145 am Strategaeth 5 Mlynedd y Gymraeg sy'n cynnig sut y bydd y Cyngor yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach.

(ii) Ystyried a yw am gyfuno ei sylwadau mewn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad sy'n cau ar 30 Hydref 2016 er mwyn rhoi gwybodaeth ar gyfer datblygu Cynllun Gweithredu i'w ystyried gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2016.

**Davina Fiore**
Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol
5 Hydref 2016